

**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 20fed Ionawr 2021 gan gychwyn am 6.00pm.

## **YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, R. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

### **35. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### **36. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 16eg Rhagfyr 2020 - Rhifau Cofnod 26-34

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. L. King a **PHENDERFYNWDYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 16eg Rhagfyr 2020 - Rhifau Cofnod 14-16

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs P. M. Jones a **PHENDERFYNWDYD** eu bod yn gofnod cywir.

Penderfyniadau Cynllunio - Rhagfyr 2020 - Atodlen 24  
a gymerwyd yn ystod egwyl y Nadolig

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Miss C. L. Williams a **PHENDERFYNWDYD** cymeradwyo'r penderfyniadau.

### **37. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNEBAU (ATODLEN A) RHAGFYR 2020 - IONAWR 2021**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed ac incwm a dderbyniwyd.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
1087	BT	128.16	Gwasanaethau rhyngwrwyd
1078	HSBC	7.40	Taliadau banc 17 Hydref – 16 Tachwedd 2020
1079	Gunsmoke Communications	1,440.00	Ffi Rheoli Tachwedd 2020

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
985	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	916.67	Swyddog Apelio 20/21 taliad 9 o 12
984	Cyngor Sir Ddinbych	736.00	AAC 20/21 ar gyfer swyddfa Ffordd Wellington – taliad 9 o 10
1080	CThEM	2,804.70	Didyniadau PAYE Tachwedd 2020
1081	Cronfa Bensiwn Clwyd	4,294.23	Didyniadau pensiwn ac ariannju diffyg Tachwedd 2020
1082	Staff Cyngor Tref y Rhyl	7,355.85	Cyflogau staff Rhagfyr 2020
1088	HSBC	32.00	Ffi cerdyn blynyddol
1089	BT	211.72	Taliadau rhentu
	<b>Cyfanswm taliadau</b>	<b>£17,926.73</b>	

Categori	Disgrifiad	Swm
Llogau a dderbyniwyd	Cyfrif Rhybudd 31 diwrnod Santander	22.81
Llogau a dderbyniwyd	Cyfrif Adneuo 7 Diwrnod HSBC	0.67
Llogau a dderbyniwyd	Cyfrif Adneuo 7 Diwrnod HSBC	0.58
Llogau a dderbyniwyd	Cyfrif Adneuo 7 Diwrnod HSBC	0.58
Llogau a dderbyniwyd	Cyfrif Adneuo 7 Diwrnod HSBC	0.58
Llogau a dderbyniwyd	Cyfrif Adneuo 7 Diwrnod HSBC	0.58
Llogau a dderbyniwyd	Cyfrif Money Maker HSBC	2.73
Praesept 2020/21	Cyngor Sir Ddinbych – cyfran 3 o 3	184,537.00
	<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>£184,565.53</b>

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad.

### **38. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (9fed Rhagfyr 2020 – 12fed Ionawr 2021)*

Cyflenwr	Manylion y cyflenwad	Rhif Taleb	Swm £
SLCC	Ffi aelodaeth i Mr G. Nickels (232407)	1099	379.00
Blachere Illuminations UK Ltd	Trwsio goleuadau	1100	2,189.09
Cyngor Sir Ddinbych	Tâl rhent	1101	13.50
Cyngor Sir Ddinbych	Tâl rhent – Gerddi Coffa'r Rhyl	1102	1.00
Cyngor Sir Ddinbych	Gosod a symud ymaith coeden Nadolig	1103	349.27
Swyddfa Archwilio Cymru	Archwilio cyfrifon (datganiad blynyddol) 2019/20	1104	263.10
<b>Cyfanswm Atodlen B</b>			<b>£3,194.96</b>

### 39. **DATGANIAD BLYNYDDOL 2019 / 2020 – CWBLHAU ARCHWILIAD**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiadau ef a'r Swyddog Cyllid (a ddsbrthwyd gyda'r rhaglen).

Nid oedd unrhyw faterion wedi eu hadnabod gan yr Archwiliwr.

**PENDERFYNWYD** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiadau.*

### 40. **DATGANIADAU ARIANNOL 2019 / 2020**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad a'r datganiadau drafft (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau eu cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD** *cymeradwyo'r datganiadau gyda diolch i'r Swyddog Cyllid.*

### 41. **FFORWM DEFNYDDWYR MARINE LAKE – CAIS AM LYTHYR O GEFNOGAETH**

Cymerodd y Dirprwy Faer y gadair oherwydd datganiad o fuddiant gan y Maer mewn perthynas â'r eitem ac adroddodd bod cais am lythyr o gefnogaeth wedi ei dderbyn ar gyfer cais roedd y fforwm yn ei wneud am gyllid symiau neilltuedig Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer hysbyswrdd wrth y llyn (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

**PENDERFYNWYD** *cymeradwyo'r cais.*

**[Datganodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield fuddiant personol yn yr eitem oherwydd ei swydd fel Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth y Rtheilffordd Fach ac ni chymerodd unrhyw ran bellach yn y drafodaeth na'r pleidleisio]**

**[Datganodd y Cynghorydd Mrs E. M. Chard fuddiant personol hyn yr eitem oherwydd ei swydd fel aelod o'r pwyllgor ac ni chymerodd unrhyw ran bellach yn y drafodaeth na'r pleidleisio]**

**[Datganodd y Cynghorydd K. R. Jones fuddiant personol yn yr eitem oherwydd ei swydd fel aelod o'r pwyllgor ac ni chymerodd unrhyw ran bellach yn y drafodaeth na'r pleidleisio]**

[Datganodd y Cynghorydd T. Thomas fuddiant personol yn yr eitem oherwydd ei swydd fel aelod o'r pwyllgor ac ni gymerodd unrhyw ran bellach yn y drafodaeth na'r pleidleisio]

**42. EITEM YCHWANEGOL: CEFNOGWYR Y GERDDI BOTANEGOL – CAIS AM LYTHYR O GEFNOGAETH**

Ar ôl dychwelyd i'r gadair, adroddodd y Maer bod cais wedi ei dderbyn am lythyr o gefnogaeth gan yr uchod ar gyfer eu cais am gyllid symiau neilltuedig Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer cylchfan plant anabl wedi ei huwchraddio yn y cae chwarae, uwchraddio'r cyfleustra i-player i'r glasoed a thrwsio rhai o'r ffensys o gwmpas yr Ardal Gemau Aml Ddefnydd (MUGA). Er mwyn cydymffurfio gydag amserlenni cyllid grant roedd angen i'r cyngor ystyried y cais yn y cyfarfod hwn.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais.

**43. EITEM GAN AELOD: CEISIADAU CYNLLUNIO'R RHYL**

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield am gefnogaeth yr aelodau i anfon llythyr at Gyngor Sir Ddinbych yn gofyn am gyfarfod brys gyda chynrychiolwyr adrannau Cynllunio, Tai, Trwyddedu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod y crynodiad o Dai Aml-ddeiliadaeth yng Ngorllewin y Rhyl a'r effaith negyddol roedd hyn hyn ei gael ar yr ardal gyfan a thu hwnt.

Ychwanegodd y Cynghorydd Butterfield yr hoffai weld canllaw cynllunio arbennig yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfan o Orllewin y Rhyl fel sy'n digwydd gyda Lake Avenue.

**PENDERFYNWYD** bod yr aelodau yn gefnogol a gofynnwyd i Glerc y Dref anfon y llythyr yn gwahodd yr adrannau a grybwyllwyd i gyfarfod Zoom.

**44. AELOD GAN EITEM: MARCIAU FFORDD AR Y PROMENAD**

Gofynnodd y Cynghorydd T. Thomas am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyngor Tref ofyn i Gyngor Sir Ddinbych symud ymaith y bolardiau ar y promenâd y tu allan i'r Premier Inn.

Ar fater gwahanol, hysbysodd y Cynghorydd Thomas y byddai maes parcio Queen Street yn cau am gyfnod o chwe mis, ac y byddai'r parcio am ddim a gynigiwyd yno rhwng 8.30-10.30am yn trosglwyddo i'r maes parcio newydd ar gornel Ffordd Wellington a Water Street.

Aeth y Cynghorydd Thomas ymlaen i adrodd nad oedd y bolardiau ar y promenâd wedi eu cynnwys yn y cynllun a gyflwynwyd i Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl cyn eu gosod, ac roeddynt eisoes yn achos tagfeydd traffig. Ym misoedd yr haf byddai hon yn broblem go iawn.

Ychwanegodd bod hon yn farn a rennid gan lawer o fusnesau lleol a oedd yn aelodau o Ardal Gwella Busnse y Rhyl (BID).

Roedd y mater i'w gyflwyno gerbron cyfarfod nesaf MAG y Rhyl ym mis Chwefror, ond roedd yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref ymlaen llaw.

Cytunodd yr Aelodau bod yr holl fesurau newydd yng nghanol y dref yn cael effaith andwyol ac yn methu yn eu hamcanion.

**PENDERFYNWYD** bod yr aelodau'n cefnogi symud ymaith y bolardiau a'r holl fesurau cadw pellter cymdeithasol newydd yn y Rhyl.

**45. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

**46. CADETIAID YR HEDDLU / MENTORA POBL IFANC**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar ôl cysylltiad gan yr uchod yn ceisio sefydlu cynllun mentora ar gyfer pobl ifanc yn y Rhyl ac yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref 'mewn egwyddor'.

**PENDERFYNWYD** cynnig cefnogaeth 'mewn egwyddor', yn amodol ar dderbyn gwybodaeth bellach ar faterion amddiffyn plant ac ariannu'r cynllun yn y tymor hir.

**47. CYNLLUN GRANT ARIANNU CANOL Y DREF COVID-19**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (CSG) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn hysbysu bod y pwyllgor wedi adnabod dau brosiect posibl ar gyfer y grant sydd i ddod gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gydag adferiad canol y dref oherwydd y pandemig Covid-19.

Y cyntaf oedd ailwampio'r pyllau ar hyd y promenâd a'r ail oedd darparu loceri beiciau ym meysydd parcio canol y dref.

Yn anffodus, roedd y ddau wedi cael derbyniad negyddol gan fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fyddai cynlluniau promenâd yn llwyddiannus, ac roedd Cyngor Sir Ddinbych yn teimlo na fyddai loceri beiciau yn y meysydd parcio yn gweithio ac awgrymu y dylid eu lleoli yn yr ardaloedd i gerddwyr y dref.

O ystyried barn y Cyngor Tref bod yr ardaloedd i gerddwyr eisoes yn cael eu gordefnyddio gan ddefnydd heb fod yn gerddwyr, ystyriwyd bod hyn yn anghydfod uniongyrchol gyda'r broblem honno.

Felly roedd y pwyllgor yn argymhell dim camau gweithredu.

**PENDERFYNWYD** na fyddai'r Cyngor Tref yn gwneud defnydd o'r grant.

**48. ADRODDIAD RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS**

Ymhellach i gofnod rhif 31 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Rhagfyr 2020, ystyriodd y pwyllgor y ddau unigolyn a oedd ar ôl ar gyfer y dyfarniad (manylion wedi eu dosbarthu gyda'r rhaglen) ac o roddi'r mater i bleidlais **PENDERFYNWYD** nad oedd y naill na'r llall yn derbyn y lefel ofynnol o gefnogaeth gan yr aelodau.

**PENDERFYNWYD** na fyddai'r Cyngor Tref yn gwneud dyfarniad eleni.

**49. COFNODION Y PWYLLGOR CSG**

Cyfeiriodd y Maer at y cofnodion cyfrinachol canlynol er gwybodaeth i'r aelodau:

23ain Tachwedd 2020	-	Rhifau Cofnod 1-4
11eg Ionawr 2021	-	Rhifau Cofnod 5-9

**PENDERFYNWYD** cydnabod y cofnodion.

**50. EITEM YCHWANEGOL: ARGYMHELLION YR IS-BWYLLGOR CYNNAL A CHADW TIROEDD**

Dywedodd Dirprwy Glerc y Dref, oherwydd lefel ychwanegol o gymeradwyaeth roedd ei hangen nawr gan reoliadau ariannol y Cyngor Tref ar bob gwariant dros £5,000, roedd yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd yn gofyn am awdurdod y Cyngor Tref i fynd ymlaen gydag archeb planhigion 2021, gwerth £10,158.14.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r archeb.

**51. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: .....

Dyddiad: .....